# CYNLLUN MARCIO TAG SAFON UWCH

## HAF 2023

## SAFON UWCH
## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT – UNED 3
## 1570N30-1

© WJEC CBAC Ltd.

## RHAGARWEINIAD

Cafodd y cynllun marcio hwn ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Cafodd ei gwblhau ar ôl trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr a oedd yn ymwneud â'r asesu. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl i'r papur gael ei sefyll fel y gellid cyfeirio at yr ystod lawn o atebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Nod y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn yr un ffordd gan yr holl arholwyr.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir hefyd y gall athrawon, heb y fantais o gymryd rhan yng nghynhadledd yr arholwyr, fod â safbwyntiau gwahanol ynghylch rhai materion ynglŷn â manylion neu ddehongliad.

Ni all CBAC fod yn rhan o unrhyw drafodaeth na gohebiaeth yn ymwneud â'r cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**TAG SAFON UWCH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**UNED 3: SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL AR DDATBLYGIAD PLANT A PHOBL IFANC**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2023**

## Canllawiau i arholwyr

### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael marc o sero. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn. Mae *cynnwys 'Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir dyfarnu marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau a gaiff eu marcio yn seiliedig ar fandiau, mae'r cynlluniau marcio mewn dwy ran, sef y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

Mewn TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae'r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau y gellir eu dyrannu i gwestiwn yn amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a'r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Asesir ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle bo cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, dyfernir marc am bob amcan asesu ac wedyn caiff y marciau hynny eu hadio at ei gilydd er mwyn rhoi marc cyffredinol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hynny'n golygu, ar gyfer ymateb pob ymgeisydd, bod marciau'n cael eu cronni am arddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw.  Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull ‘ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band.  Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Atgoffir arholwyr y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

© WJEC CBAC Ltd.

| Adran A | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn** | | **Ateb** | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm marciau** |
| **1.** | *Darllenwch yr astudiaeth achos am Osian ac atebwch y cwestiynau isod.* | | | | | |
| | (a) | *Amlinellwch* ***dri*** *ffactor fyddai wedi gallu cael dylanwad negyddol ar ddatblygiad Osian.* | 6 [2,2,2] | | | 6 |
| | | Rhowch **hyd at 2 farc** am bob ffactor gywir yn yr astudiaeth achos a allai fod yn dylanwadu'n negyddol ar ddatblygiad Osian.<br><br>**Rhowch 1 marc** am amlinelliad sylfaenol yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â phob ffactor allai fod yn dylanwadu'n negyddol ar ddatblygiad Osian.<br><br>**Rhowch 2 farc** am amlinelliad da yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda ynglŷn â phob ffactor allai fod yn dylanwadu'n negyddol ar ddatblygiad Osian.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unrhyw dri o'r canlynol:<br><br>**cymdeithasegol:**<br>• teulu: ei rieni wedi gwahanu, ei dad wedi symud i ffwrdd a ddim yn dod i ymweliadau, ei nain a'i daid yn symud dramor, llai o sylw gan ei dad a'i deulu estynedig<br>• ffordd o fyw: diffyg bwyd maethlon oherwydd incwm isel y teulu.<br>**amgylcheddol:**<br>• byw mewn pentref gwledig bach, llai o wasanaethau a chyfleoedd i chwarae/adnoddau ar gael<br>• ffrindiau: diffyg cymdeithasoli oherwydd nad yw'n gallu mynd i grŵp rhieni/plant bach a diffyg ffrindiau a theulu ei fam yn yr ardal, yn arwain at unigedd.<br>**economaidd-gymdeithasol:**<br>• tlodi oherwydd gorfod byw ar fudd-daliadau a'r ddau riant ddim yn gweithio.<br>**seicolegol:**<br>• gwahanu oddi wrth ei dad a'i nain a'i daid, diffyg ymlyniad â'i dad oherwydd ymweliadau anghyson<br>• profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys<br>• galar a cholled oherwydd bod ei rieni wedi gwahanu a'i nain a'i daid wedi symud dramor.<br>• profiadau bywyd: gallai'r ffaith bod ei rieni wedi gwahanu ac nad yw ei dad yn ymweld yn aml arwain at ymlyniad ansicr a theimladau ei fod wedi'i adael ar ôl.<br>• cyfnodau o bontio: dechrau/mynychu grŵp rhieni a phlant bach ac ysgol feithrin, amgylchoedd addysgol newydd, trefn ddyddiol a rhieni/ymarferwyr newydd, teimlo'n ansefydlog.<br>**biolegol:**<br>• posibilrwydd o anableddau dysgu, allai effeithio ar ei allu i gymdeithasu â phlant eraill, ac i gyfathrebu am ei anghenion<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ateb perthnasol arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch nodweddion datblygiad emosiynol a chymdeithasol ar gyfer plentyn 2 i 3 oed fel Osian.* | 6 | | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae datblygiad emosiynol a chymdeithasol yn cynnwys dysgu rhyngweithio â phobl eraill, a deall a rheoli ein hemosiynau. Mae babanod yn dechrau datblygu perthynas â'r bobl o'u cwmpas nhw o adeg eu geni, ond mae'r broses o ddysgu cyfathrebu, rhannu, a rhyngweithio ag eraill yn cymryd blynyddoedd lawer i ddatblygu. Y nodweddion sydd i'w disgwyl o ran datblygiad emosiynol a chymdeithasol plentyn 2-3 oed yw:<br>• bod yn ymwybodol o'u hunaniaeth rhywedd<br>• bod yn eithaf pendant a dweud 'na' wrth ofynion neu gyfarwyddiadau oedolion<br>• dechrau gwerthuso eu hymddygiadau fel 'drwg', 'da' ac ati<br>• dechrau rhannu a chymryd eu tro<br>• bod yn feddiannol gyda'u teganau<br>• teimlo bod angen eu rhieni neu oedolyn cyfarwydd gerllaw ar gyfer diogelwch a chefnogaeth<br>• bod yn fwy ymwybodol o'u teimladau ac o deimladau pobl eraill<br>• mwynhau chwarae gemau gyda phlant eraill<br>• gwylio plant eraill yn chwarae ac yna ymuno yn y chwarae am gyfnodau byr<br>• mwynhau gweithgareddau grŵp fel canu a dawnsio<br>• dechrau dynwared senarios bywyd go iawn drwy wisgo gwahanol ddillad neu chwarae'n ddychmygus<br>• dangos amrywiaeth o emosiynau<br>• gwybod sut i rannu a chymryd eu tro<br>• dangos diddordeb mewn chwarae gyda phlant eraill sydd tua'r un oed â nhw<br>• defnyddio chwarae dychmygus e.e. esgus bod mewn bwyty<br>• chwarae gyda phlant eraill<br>• chwarae esgus syml<br>• bydd yn well ganddyn nhw chwarae gyda phlant a theganau o'r un rhyw<br>• annhebygol o rannu teganau heb brotestio<br>• dysgu datrys anghydfod gyda chyfoedion ac oedolion<br>• gallai ofnau plentyndod ymddangos (bwystfil o dan y gwely)<br>• dechrau deall safbwyntiau pobl eraill<br>• dangos empathi<br>• chwarae gemau grŵp syml<br>• rhyngweithio'n dderbyniol gydag eraill<br>• gwahanu'n hawdd oddi wrth eu rhieni<br>• mynegi amrywiaeth eang o emosiynau<br>• gwrthwynebu unrhyw newidiadau mawr i'w trefn arferol<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ateb perthnasol arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â nodweddion datblygiad emosiynol a chymdeithasol plentyn 2 i 3 oed<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau perthnasol. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â nodweddion datblygiad emosiynol a chymdeithasol plentyn 2 i 3 oed<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o gysyniadau perthnasol. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â nodweddion datblygiad emosiynol a/neu gymdeithasol plentyn 2 i 3 oed<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Esboniwch y strategaethau a'r dulliau byddai Katya'n gallu eu defnyddio i gefnogi Osian i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol yn y feithrinfa.* | | 8 | | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Ymhlith dulliau o hybu ymddygiad cadarnhaol Osian yn y feithrinfa mae:<br>• modelu – e.e. Katya ac ymarferwyr eraill yn gweithredu fel modelau rôl<br>• gosod ffiniau – e.e. rheolau gartref/yn y feithrinfa<br>• cysondeb – rhwng y cartref a'r feithrinfa e.e. Amy a Katya yn defnyddio yr un dulliau/strategaeth<br>• atgyfnerthu – e.e. canmoliaeth, gwobrau<br>• creu amgylchedd ar gyfer ymddygiad da yn y feithrinfa – e.e. dyddiau wedi'u strwythuro a'u cynllunio a threfn ddyddiol gyson<br><br>Dylai Katya gytuno ar bolisi ymddygiad gydag Amy, sy'n:<br>• cyfiawnhau disgwyliadau<br>• mynegi rheolau mewn ffordd gadarnhaol<br>• cynnwys rheolau am ymddygiadau grŵp<br>• hybu strategaethau gwydnwch.<br><br>Gall ymatebion gyfeirio hefyd at strategaethau ffurfiol ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol:<br>• darparu amgylchedd gartref ac yn y feithrinfa sy'n gadarnhaol ac yn gefnogol<br>• rhoi strategaethau ar waith i feithrin sgiliau ac atgyfnerthu ymddygiadau cadarnhaol<br>• rhoi strategaethau ar waith ar gyfer lleihau ymddygiad annymunol, fel:<br>  o amser tawel<br>  o arferion adferol<br>  o defnyddio ymyriadau, gan gynnwys:<br>    ▪ difyrru, tynnu sylw<br>    ▪ trafodaethau ag unigolyn allweddol<br>    ▪ rheoli'r amgylchedd<br>    ▪ bod yn gyson<br>    ▪ unigolyn allweddol<br>    ▪ aros yn bwyllog<br>    ▪ creu cardiau ymddygiad neu drefn<br>    ▪ parhau i arsylwi a deall yr hyn mae'r plentyn yn ceisio ei ddweud go iawn drwy ei ymddygiad heriol<br><br>Adeiladu perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni:<br>• i adeiladu perthynas gadarnhaol gydag Amy, dylai Katya gydweithio â hi a sefydlu ymddiriedaeth, er mwyn helpu i sicrhau eu bod nhw'n defnyddio dulliau cyson i hybu ymddygiad cadarnhaol Osian.<br>• mae'n bwysig bod y cyfathrebu rhwng Katya ac Amy yn dda er mwyn sicrhau y dilynir trefnau cyson.<br>• dylai Katya roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Amy am gynnydd Osian yn rheolaidd, a thrafod unrhyw bryderon.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Esboniad rhagorol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â sut gellir cefnogi Osian i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol yn y feithrinfa<br>• dealltwriaeth hyderus o amrywiaeth o strategaethau a dulliau y gellid eu cymhwyso er mwyn hybu ymddygiad cadarnhaol gan Osian. |
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â sut gellir cefnogi Osian i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol yn y feithrinfa<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o strategaethau a dulliau y gellid eu cymhwyso er mwyn hybu ymddygiad cadarnhaol gan Osian. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut gellir cefnogi Osian i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol yn y feithrinfa<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o strategaethau a/neu ddulliau y gellid eu cymhwyso er mwyn hybu ymddygiad cadarnhaol gan Osian. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut gellir cefnogi Osian i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol yn y feithrinfa<br>• dim llawer o ddealltwriaeth o strategaethau na dulliau y gellid eu rhoi ar waith er mwyn hybu ymddygiad cadarnhaol gan Osian. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | *Mae Katya wedi arsylwi bod Osian yn cael trafferth cyfathrebu am ei anghenion. Gallai hyn fod yn effeithio ar ymddygiad Osian.* | | | | | |
| | (a) | *Dadansoddwch sut byddai parhau i arsylwi (continuing observations) yn gallu helpu Katya i gefnogi Osian i gyfathrebu am ei anghenion er mwyn datblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol.* | | | 6 | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>• Mae ymddygiad heriol Osian wedi ei rwystro rhag mynd i'r grŵp rhieni a phlant bach ac wedi golygu ei fod yn hwyr yn dechrau yn y feithrinfa<br>• bydd asesiad anghenion dysgu ychwanegol yn asesu ydy Osian yn cyflawni'r cerrig milltir disgwyliedig ar gyfer plentyn ei oed ef<br>• gellir canfod unrhyw oediadau datblygiadol a sicrhau bod cefnogaeth ar gael (cynllun cymorth ymddygiadol/cynllun datblygu unigol)<br>• gall y feithrinfa sicrhau bod eu cynllunio'n ystyried anghenion unigol Osian<br>• adborth i'r rhiant<br>• gall Osian dderbyn cyfleoedd dysgu sydd wedi'u haddasu i'r ffordd mae'n dysgu;<br>• gellir gwneud addasiadau ar gyfer Osian o fewn trefn ddyddiol arferol y lleoliad.<br>• gall staff addasu'r ffyrdd maen nhw'n gweithio gydag Osian, i ddiwallu ei anghenion<br>• gall Osian gael cefnogaeth wedi'i thargedu yn y meysydd dysgu hynny lle nodwyd bod angen cefnogaeth arno<br>• Gall y feithrinfa wneud atgyfeiriadau i asiantaethau eraill i sicrhau bod Osian yn cael y gefnogaeth orau bosibl<br>• Bydd cefnogaeth un i un ar gael i Osian os bydd ei hangen.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad da iawn sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o sut gall parhau i wneud arsylwadau helpu Katya i gefnogi Osian i gyfathrebu am ei anghenion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol<br>• ymdriniaeth hyderus â'r cysyniad o arsylwadau parhaus a'r effaith bosibl ar gyfathrebu ac ymddygiad Osian. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Dadansoddi da sy'n dangos:<br>• rhyw fath o ddehongliad o sut gall parhau i wneud arsylwadau helpu Katya i gefnogi Osian i gyfathrebu am ei anghenion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol<br>• ymdriniaeth syml â'r cysyniad o arsylwadau parhaus a'r effaith bosibl ar gyfathrebu ac ymddygiad Osian. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos y canlynol:<br>• dim llawer o ddehongliad o sut gall parhau i wneud arsylwadau helpu Katya i gefnogi Osian i gyfathrebu am ei anghenion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol<br>• rhywfaint o ymdriniaeth â'r cysyniad o arsylwadau parhaus a'r effaith bosibl ar gyfathrebu a/neu ymddygiad Osian. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Mae Katya wedi penderfynu defnyddio atgyfnerthu cadarnhaol (positive reinforcement) gydag Osian. Disgrifiwch atgyfnerthu cadarnhaol yn nhermau damcaniaeth ymddygiadol Skinner, a gwerthuswch pa mor effeithiol ydyw o ran hybu patrymau ymddygiad cadarnhaol mewn plentyn fel Osian.* | 6 | | 8 | 14 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Dangosodd Skinner sut mae hyn yn gweithio drwy roi llygoden fawr mewn 'blwch Skinner' â lifer ar yr ochr; bob tro byddai'r llygoden fawr yn cyffwrdd â'r lifer ar ddamwain byddai'n gollwng pelen o fwyd. Dysgodd y llygoden fawr yn gyflym i fynd yn syth at y lifer ar ôl cael ei rhoi yn y blwch gan ailadrodd yr ymddygiad dymunol.<br><br>• Mae atgyfnerthu cadarnhaol yn golygu defnyddio clod, breintiau neu hoff weithgareddau fel gwobrau am ymddygiadau dymunol neu ymddygiadau targed.<br>• Os na chaiff ymddygiadau cadarnhaol eu modelu, eu haddysgu, a'u hatgyfnerthu, gall plant ddatblygu arferion drwg sy'n anodd eu torri. Gall plentyn ei chael hi'n anodd yn yr ysgol ac o ran cydberthnasau â'u cyfoedion, a gallai hynny gael effaith tymor hir ar eu dyfodol.<br>• Mae ymarferwyr yn defnyddio hyn yn aml yn y lleoliad ar ffurf siartiau gwobrau, tystysgrifau, rhoi sticeri neu'r cyfle i gymryd cyfrifoldeb neu helpu yn ystod amser byrbryd (dim ond 2 oed yw Osian) fel gwobr am ymddygiad da<br>• Damcaniaeth ymddygiadol Skinner yw bod atgyfnerthu cadarnhaol yn cryfhau ymateb neu ymddygiad drwy roi gwobrau sy'n arwain at ailadrodd yr ymddygiad.<br>• Datblygodd damcaniaethau Skinner o gyflyru clasurol Pavlov a Watson, ond roedd yn credu bod cyflyru clasurol yn rhy syml i esbonio cymhlethdodau ymddygiad dynol, ac mai'r ffordd orau o astudio ymddygiad oedd archwilio beth sy'n ei achosi ac ymatebion iddo.<br><br>Bydd defnyddio atgyfnerthu cadarnhaol gydag Osian yn hybu patrymau ymddygiad cadarnhaol drwy:<br><br>• helpu Osian i ffurfio ymdeimlad cadarnhaol o'i hunan drwy ei ganmol, ei annog a'i wobrwyo<br>• cefnogi Osian i ffurfio cydberthnasau cadarnhaol drwy ei ganmol am chwarae'n dda gyda phlant eraill, rhannu, cymryd tro a dangos empathi<br>• helpu Osian i ddatblygu parch at bobl eraill drwy ei ganmol a'i wobrwyo am ddweud os gwelwch yn dda neu diolch ac am helpu eraill,<br>• creu siart gwobrau i Osian sy'n ei gwneud hi'n glir beth gall ei wneud i gael gwobr, e.e. gorffen gwaith ar amser, tacluso, eistedd a gwrando pan fydd rhywun yn gofyn iddo wneud hynny.<br>• ei ganmol mewn modd clir, uniongyrchol ac wedi'i ddiffinio. mae angen i Osian wybod beth mae wedi'i wneud oedd yn dda iawn er mwyn gallu ailadrodd yr ymddygiad. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • cefnogi Osian i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a rheoli ei emosiynau drwy fodelu sgiliau cymdeithasol priodol a gwobrwyo Osian pan fydd yn copïo hyn, gan helpu i ddatblygu dealltwriaeth o ymddygiad priodol yn y grŵp.<br>• canmol ac annog Osian yn barhaus pan fydd yn ymddwyn yn briodol neu'n cyrraedd targedau ymddygiadol neu ddatblygiadol i hybu hunanhyder yn ei alluoedd.<br>• canmol ymddygiad cadarnhaol Osian fel y gall deimlo'n falch o'i gyraeddiadau a gall Amy hefyd ei ganmol a'i annog gartref i sicrhau dulliau cyson yn y cartref a'r feithrinfa<br>• atgyfnerthu rheolau ymddygiad y feithrinfa fel bod Osian yn deall pa fath o ymddygiad maen nhw'n ei ddisgwyl ganddo<br>• dylai Katya wrando ar Osian pan mae wedi dangos ymddygiad heriol a dangos empathi i ddod i ddeall beth sy'n achosi'r ymddygiad hwn<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **4** | Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br><br>Dyfernir 6 marc fel yn achos Band 3. | **7-8 marc**<br>Gwerthusiad rhagorol sy'n dangos:<br>• llunio barnau craff a gwybodus am sut gall y strategaeth atgyfnerthu cadarnhaol helpu i hybu patrymau ymddygiad cadarnhaol yn Osian.<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl ag egwyddorion atgyfnerthu cadarnhaol fel strategaeth i hybu ymddygiad cadarnhaol. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn ag atgyfnerthu cadarnhaol yn nhermau damcaniaeth ymddygiadol Skinner<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau perthnasol. | **5-6 marc**<br>Gwerthusiad da sy'n dangos:<br>• llunio barnau rhesymegol am sut gall y strategaeth atgyfnerthu cadarnhaol helpu i hybu patrymau ymddygiad cadarnhaol yn Osian.<br>• ymdriniaeth drylwyr ag egwyddorion atgyfnerthu cadarnhaol fel strategaeth i hybu ymddygiad cadarnhaol. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn ag atgyfnerthu cadarnhaol yn nhermau damcaniaeth ymddygiadol Skinner<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o gysyniadau perthnasol. | **3-4 marc**<br>Gwerthusiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• llunio barnau dilys ar y cyfan am sut gall y strategaeth atgyfnerthu cadarnhaol helpu i hybu patrymau ymddygiad cadarnhaol yn Osian.<br>• ymdriniaeth syml ag egwyddorion atgyfnerthu cadarnhaol fel strategaeth i hybu ymddygiad cadarnhaol. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag atgyfnerthu cadarnhaol yn nhermau damcaniaeth ymddygiadol Skinner<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol. | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o dystiolaeth o lunio barnau am sut gall y strategaeth atgyfnerthu cadarnhaol helpu i hybu patrymau ymddygiad cadarnhaol yn Osian.<br>• dim llawer o ymdriniaeth ag egwyddorion atgyfnerthu cadarnhaol. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Adran B | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn** | | **Ateb** | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm marciau** |
| **3.** | (a) | Disgrifiwch y patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith (*language development*) plentyn o adeg geni hyd at 3 oed. | 6 | | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at:<br><br>0-3 mis – ymateb i synau uchel, adnabod lleisiau, cŵan, crïo'n wahanol am wahanol anghenion, gwenu pan fydd rhywun yn siarad ag ef/hi / pan mae'n eich gweld chi<br><br>4-6 mis – edrych tuag at sain, rhoi sylw i deganau â sain a cherddoriaeth, gwneud synau clebran, chwerthin, lleisio pleser/anfodlonrwydd<br><br>7-12 mis – mwynhau gemau rhagweld syml (h.y. pi-po), adnabod geiriau cyffredin, dechrau ymateb i geisiadau syml, clebran sy'n amrywio, defnyddio lleferydd/synau i gael sylw, dynwared synau siarad, cynhyrchu gair ystyrlon cyntaf<br><br>12-18 mis – deall 100-150 o eiriau mewn cyd-destun, pwyntio at rannau o'r corff, gwrando ar ganeuon, straeon, rhigymau, defnyddio ystumiau i gyfathrebu'n fwriadol, defnyddio llawer o wahanol synau cytsain, geirfa'n cynyddu'n gyflym bob dydd<br><br>18-24 mis – deall 150-200+ o eiriau<br>dilyn gorchmynion syml, deall cwestiynau syml<br>adnabod lluniau mewn llyfrau drwy bwyntio, dweud 50-150 o eiriau, enwi eitemau cyffredin, dechrau rhoi 2 air at ei gilydd<br><br>24-36 mis – deall 200-500+ o eiriau, dilyn cyfarwyddiadau 2 gam, deall un, i gyd, mewn, ar, o dan, deall gwahaniaethau ystyr (h.y. mynd/stopio), dechrau deall llawer o agweddau iaith gan gynnwys gramadeg, gwrando ar straeon hirach, dweud 100-250+ o eiriau a defnyddio brawddegau 2-4 gair, gofyn am wrthrychau yn ôl eu henw, dechrau defnyddio rheolau gramadeg iaith.<br><br>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• datblygiad iaith yw lle mae plant yn datblygu'r sgiliau gwybyddol uwch sydd eu hangen i gyfathrebu ar lafar a defnyddio iaith i gyfleu'r hyn sydd ei eisiau a'i angen arnynt a mynegi eu barn.<br>• er y bydd rhai plant yn datblygu'n arafach nag eraill, mae datblygiad iaith yn dilyn dilyniant nodweddiadol.<br>• yn gyntaf, bydd babanod yn gwneud eu synau eu hunain ond yn ddiweddarach byddant yn ailadrodd synau maen nhw'n eu clywed yn eu hamgylchedd. Bydd y rhan fwyaf o blant yn dweud eu geiriau cyntaf rhwng naw a deunaw mis, sef mama neu dada fel rheol, beth bynnag yw iaith y plentyn.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ateb perthnasol arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â'r patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith plentyn o adeg geni hyd at 3 oed.<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau perthnasol. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â'r patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith plentyn o adeg geni hyd at 3 oed.<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o gysyniadau perthnasol. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith plentyn o adeg geni hyd at 3 oed.<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Esboniwch sut byddai ymarferwyr yn gallu defnyddio damcaniaeth datblygiad gwybyddol Piaget i gefnogi datblygiad deallusol plant.* | | 6 | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>• mae damcaniaeth datblygiad gwybyddol Piaget yn helpu ymarferwyr i gynllunio gwersi a gweithgareddau er mwyn cynhyrchu amgylchedd lle gall plant ddysgu drwy brofiadau<br>• mae Piaget yn credu bod plant yn mynd ati i adeiladu gwybodaeth a chwilio am ddatrysiadau i broblemau, ac mai dyna yw sail dysgu drwy ddarganfod a dysgu drwy brofiad, sy'n rhan hanfodol o addysg y blynyddoedd cynnar heddiw.<br>• rydyn ni'n galw damcaniaeth Piaget yn ddamcaniaeth camau gan fod plant yn symud drwy gyfres o gamau yn eu datblygiad deallusol: y cyfnodau synhwyraidd-weithredol, cynweithredol, gweithredol diriaethol a gweithredol ffurfiol.<br>• roedd Piaget yn credu bod rhaid i blant gyrraedd cam datblygu penodol cyn gallu symud i'r nesaf, ac yn credu bod pob cam newydd yn ddatblygiad o un cynharach drwy ail-lunio a thrawsnewid eu gwybodaeth gynharach.<br>• mae damcaniaethau Piaget yn galluogi ymarferwyr i ddeall bod datblygiad plant yn seiliedig ar gamau ac felly i gynllunio gweithgareddau a gwersi sy'n briodol i oed a cham datblygu'r plentyn<br>• mae'n esbonio twf deallusol plant o bob oed.<br>• drwy ddefnyddio damcaniaeth Piaget yn yr ystafell ddosbarth, gall ymarferwyr gysoni eu strategaethau addysgu â lefel wybyddol plant<br>• mae'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru sy'n hybu dysgu plant drwy chwarae a dysgu drwy brofiad wedi'i seilio ar ddamcaniaethau Piaget.<br>• mae damcaniaethau Piaget yn rhoi pwyslais ar ddysgu gweithredol yn hytrach na goddefol drwy archwilio'r byd a dysgu drwy ddarganfod sy'n agweddau allweddol ar y cyfnod Sylfaen a llawer o gwricwla addysgol eraill heddiw.<br>• mae athrawon ac ymarferwyr yn pwysleisio gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion i hybu dysgu lle mae plant yn dysgu drwy ddarganfod gweithredol yn hytrach na gwersi uniongyrchol, gan ganolbwyntio ar y broses ddysgu yn hytrach na'r cynnyrch terfynol.<br>• roedd Piaget yn cydnabod pwysigrwydd arsylwi ar blant i asesu eu lefel ddatblygiadol er mwyn cynllunio tasgau a gweithgareddau sy'n briodol o ran oedran a chyfnod, ac mae hyn yn rhan bwysig o gynllunio sesiynau mewn lleoliadau. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • mae deall camau datblygiad yn helpu ymarferwyr i ganfod unrhyw arwyddion o oedi datblygiadol a rhoi'r gefnogaeth gywir i anghenion dysgu unigol pob plentyn.<br>• mae damcaniaeth Piaget yn seiliedig ar sut mae plant yn dysgu drwy chwarae a manteision dysgu drwy chwarae. Mae ei ddamcaniaeth hefyd yn darparu sylfaen glir ar gyfer addysg plant. Mae'n caniatáu i weithwyr proffesiynol ddod i ddeall sut dylen nhw weithio gyda phlant a sicrhau bod plant yn cael y cyfleoedd cywir.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â sut byddai ymarferwyr yn gallu defnyddio damcaniaeth datblygiad gwybyddol Piaget i gefnogi datblygiad deallusol plant.<br>• dealltwriaeth hyderus o sut mae nodweddion damcaniaeth Piaget yn berthnasol i ddatblygiad deallusol plant |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â sut byddai ymarferwyr yn gallu defnyddio damcaniaeth datblygiad gwybyddol Piaget i gefnogi datblygiad deallusol plant.<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut mae nodweddion damcaniaeth Piaget yn berthnasol i ddatblygiad deallusol plant. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut mae damcaniaeth datblygiad gwybyddol Piaget yn cefnogi datblygiad deallusol plant.<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut mae nodweddion damcaniaeth Piaget yn berthnasol i ddatblygiad plant. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Dadansoddwch sut mae chwarae corfforol yn gallu hybu datblygiad cyfannol plentyn 4 i 6 oed.* | | | 8 | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>• chwarae corfforol yw gweithgareddau lle mae plentyn yn swingio, yn rhedeg, yn troelli, yn neidio ac yn dringo.<br>• eu gwneud nhw'n gorfforol heini a'u cadw nhw'n iachach.<br>• cynyddu cryfder cyhyrau a gwydnwch, cryfhau eu hesgyrn a rhoi hwb i'w metabolaeth.<br>• datblygu sgiliau ffitrwydd echddygol fel ystwythder, cyflymder, pŵer, cydbwysedd a chydsymud.<br>• mae troelli'n symbylu gwahanol rannau o'r ymennydd ar yr un pryd; mae hyn yn adeiladu llwybrau newydd a mwy datblygedig drwy'r ymennydd i gyd sy'n gwella potensial dysgu ac ymwybyddiaeth ofodol<br>• wrth ddringo, mae plant yn ymarfer sgiliau gwybyddol pwysig fel cof, datrys problemau a delweddu<br>• mae neidio'n helpu plant i ddeall ble mae eu corff mewn gofod<br>• mae cerdded a rhedeg yn darparu cyfleoedd i ymarfer a meistroli sgiliau sydd eu hangen i symud yn annibynnol<br>• mae chwarae corfforol yn annog datblygiad "echddygol bras" sef sgiliau corfforol sy'n defnyddio symudiadau corff mawr, gan gynnwys y corff i gyd fel rheol.<br>• mae plant yr oed hwn yn dechrau meistroli mathau newydd o chwarae corfforol gan ddechrau defnyddio'r si-so, y llithren a'r siglen ar eu pennau eu hunain, dechrau sgipio â rhaff, sglefrio, taro peli â batiau.<br>• mae plant yr oed hwn yn mwynhau dysgu chwarae chwaraeon trefnedig fel pêl-droed, rygbi neu nofio. Maen nhw hefyd yn hoffi cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol corfforol fel karate, gymnasteg, neu ddawns, sy'n datblygu sgiliau cymdeithasol, gwaith tîm a datrys problemau ac yn datblygu hyder a hunan-barch.<br>• mae plant yn parhau i fireinio eu sgiliau echddygol manwl ac adeiladu ar sgiliau cynharach; maen nhw nawr yn gallu agor a chau botymau eu dillad ar eu pennau eu hunain, ac yn dechrau dangos y sgiliau sydd eu hangen i ddechrau neu lwyddo yn yr ysgol, fel printio llythrennau a rhifau a chreu siapiau fel trionglau. Maen nhw'n gallu defnyddio paentiau, pensiliau a chreonau â gwell rheolaeth.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Dadansoddiad rhagorol sy'n dangos:<br>• dehongliad craff a gwybodus o sut gall chwarae corfforol hybu datblygiad cyfannol plentyn 4-6 oed.<br>• ymgysylltiad hyderus a manwl â'r cysyniad o chwarae corfforol a sut gall hybu pob maes datblygiad. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o sut gall chwarae ffisegol hybu datblygiad cyfannol plentyn 4-6 oed.<br>• ymgysylltiad trylwyr â'r cysyniad o chwarae corfforol a sut gall hybu'r rhan fwyaf o feysydd datblygiad. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o ddehongliad o sut gall chwarae corfforol hybu datblygiad cyfannol plentyn 4-6 oed.<br>• ymgysylltiad syml â'r cysyniad o chwarae corfforol a sut gall hybu rhai meysydd datblygiad. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o dystiolaeth o ddehongli sut gall chwarae corfforol hybu datblygiad cyfannol plentyn 4-6 oed.<br>• dim llawer o ymgysylltiad â'r cysyniad o chwarae corfforol a sut gall hybu o leiaf un maes datblygiad. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.** | *Mae chwarae yn sail i bob maes datblygiad yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.* | | | | | |
| | (a) | *Esboniwch beth yw pwrpas chwarae o ran cefnogi datblygiad plant.* | | 6 | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Pwrpas chwarae:<br>mae chwarae'n rhan hanfodol o fywyd pob plentyn ac mae'n hanfodol i fwynhau plentyndod yn ogystal â datblygiad cymdeithasol, emosiynol, deallusol a chorfforol<br>• mae gan blant hawl i chwarae<br>• mae chwarae yn caniatáu i blant ddefnyddio eu creadigrwydd, gan ddatblygu eu dychymyg, eu deheurwydd a'u cryfder corfforol, gwybyddol ac emosiynol ar yr un pryd.<br>• drwy chwarae bydd plant yn ymgysylltu ac yn rhyngweithio â'r byd o'u cwmpas<br>• mae chwarae gweithgar rheolaidd yn helpu babanod, plant a phobl ifanc i ddatblygu arfer gydol oes o wneud ymarfer corff bob dydd a sgiliau bywyd fel:<br>• sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol<br>• dealltwriaeth o reolau cymdeithasol<br>• cyfeillgarwch<br>• synnwyr o 'roi a chymryd'<br>• amynedd a dyfalbarhad<br>• dealltwriaeth o eraill<br>• gwaith tîm ac ymdeimlad o berthyn<br>• chwarae yw sail pob maes dysgu yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen; mae chwarae hefyd yn sail i ddysgu a phob datblygiad.<br><br>Y rôl mewn datblygiad plant:<br>• cynyddu eu hunan-barch<br>• gwella a chynnal eu hiechyd corfforol a meddyliol<br>• rhoi'r cyfle iddynt i gymysgu â phlant eraill<br>• caniatáu iddynt gynyddu eu hyder drwy ddatblygu sgiliau newydd<br>• hybu eu dychymyg, eu hannibyniaeth a'u creadigrwydd<br>• darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a dysgu, ac i blant o bob gallu chwarae gyda'i gilydd.<br>• meithrin gwydnwch drwy gymryd risgiau a wynebu heriau, datrys problemau, ac ymdrin â sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd.<br>• gall plant gymdeithasu a chyfathrebu â chyfoedion, gan hybu sgiliau iaith, cadw'n gorfforol a meddyliol weithgar a chael rhyddid i ddefnyddio eu creadigrwydd a gwneud eu penderfyniadau eu hunain.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
| --- | --- |
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o bwrpas chwarae.<br>• dealltwriaeth hyderus o sut mae chwarae'n cefnogi datblygiad plant |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o bwrpas chwarae.<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut mae chwarae'n cefnogi datblygiad plant |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o bwrpas chwarae.<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut mae chwarae'n cefnogi datblygiad plant. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch sut byddai unrhyw* ***ddau*** *fath o chwarae'n gallu cefnogi meysydd datblygiad allweddol o fewn y Cyfnod Sylfaen.* | 8 | | | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at unrhyw ddau o'r canlynol:<br><br>• **chwarae creadigol –** datblygu sgiliau datrys problemau ac iaith; mae plant yn mynegi eu hemosiynau, yn datblygu sgiliau cymdeithasol ac yn dysgu parchu teimladau a syniadau pobl eraill<br>• **chwarae corfforol –** datblygu ffitrwydd a sgiliau echddygol bras a manwl; rhoi cyfleoedd iddyn nhw i gymryd risgiau<br>• **chwarae dychmygus/esgus neu chwarae rôl –** datblygu'r sgiliau cymdeithasol a'r ymddygiadau sydd eu hangen ar blant ar gyfer bywyd fel oedolion<br>• **chwarae amgylcheddol –** hybu dysgu drwy ddarganfod wrth i blant ddysgu am y byd drwy eu synhwyrau<br>• **chwarae mewn amgylchedd strwythuredig –** yn caniatáu i blant ddefnyddio rhesymeg i ddatrys problemau lle mae chwarae anstrwythuredig, neu chwarae rhydd yn greadigol ac yn benagored<br>• **chwarae anstrwythuredig –** meithrin empathi a chreadigrwydd mewn plant a gallu helpu i leihau iselder, gorbryder a straen. Mae'n caniatáu i blant ddilyn eu diddordebau a datblygu'r cymhelliant i ddysgu, archwilio a darganfod<br>• **chwarae hunangyfeiriedig** – yn caniatáu i blant chwarae heb gyfarwyddyd nac ymyrraeth gan oedolion; mae'r plentyn yn cael dewis rhydd ac yn rheoli cynnwys ei chwarae.<br>• **chwarae plentyn gyfeiriedig (chwarae rhydd) –** yn cymell plant i chwarae ac archwilio er mwyn cael y profiad, yn hytrach nag anelu at nod terfynol<br>• **chwarae plentyn gyfeiriedig gyda chefnogaeth oedolyn** (sgaffaldio: chwarae dan arweiniad) **–** yn darparu cydbwysedd rhwng strwythur a rhyddid sy'n hybu archwilio a darganfod<br>• **chwarae oedolyn gyfeiriedig (gemau) –** annog y plant i wrando a dilyn cyfarwyddiadau, a chanolbwyntio'n well<br>• **chwarae dan reolaeth oedolyn (cyfarwyddiadau uniongyrchol) –** mae'r oedolyn yn arsylwi ar y gweithgaredd i asesu cam datblygiadol y plentyn a chynllunio gweithgareddau priodol i gefnogi a hybu datblygiad y plentyn.<br><br>Chwarae yw sail pob maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.<br><br>Mae chwarae o fewn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud y canlynol:<br>• cynnig cyfleoedd a gweithgareddau at bwrpas archwilio, ymchwilio a darganfod | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • gallu cefnogi a hybu'r broses o ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• hybu dysgu gweithredol<br>• helpu plant i feddwl a gwneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch<br>• meithrin eu sgiliau ieithyddol a'u sgiliau cyfathrebu<br>• galluogi plant i fod yn greadigol, i ymchwilio i wahanol ddeunyddiau a'u harchwilio<br>• cynnig cyfleoedd i blant arbrofi a rhagfynegi canlyniadau<br>• sicrhau bod dysgu yn hwyl ac yn ddifyr<br>• annog rheoli risg a her<br>• annog ymchwilio'n annibynnol fel rhan o weithgareddau a bennwyd ymlaen llaw<br>• manteisio ar gyfleoedd yn yr amgylchedd dysgu awyr agored – dysgu yn yr awyr agored.<br>• mae meysydd dysgu'n rhyngddibynnol/ sicrhau bod y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys pob maes dysgu a datblygu<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Disgrifiad rhagorol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â sut mae dau wahanol fath o chwarae'n cefnogi meysydd datblygiad allweddol o fewn y Cyfnod Sylfaen.<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau perthnasol. |
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â sut mae dau wahanol fath o chwarae'n cefnogi meysydd datblygiad allweddol o fewn y Cyfnod Sylfaen.<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o gysyniadau perthnasol. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut mae dau wahanol fath o chwarae'n cefnogi meysydd datblygiad allweddol o fewn y Cyfnod Sylfaen.<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o wybodaeth na dealltwriaeth ynglŷn â sut mae o leiaf un math o chwarae'n cefnogi meysydd datblygiad allweddol o fewn y Cyfnod Sylfaen.<br>• ychydig iawn o ddealltwriaeth o gysyniadau. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Dadansoddwch sut mae therapi chwarae yn gallu bod o fantais (benefit) ac yn gallu cefnogi plant sydd ag anghenion unigol penodol (specific individual needs).* | | | 8 | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Manteision therapi chwarae<br>• datblygu strategaethau ymdopi a datrys problemau<br>• mae'n hybu hunan-barch<br>• plant yn teimlo'n llai pryderus<br>• bydd gan blant fwy o barch at eraill ac empathi<br>• gwella gallu i fynegi teimladau<br>• gwell sgiliau cymdeithasol a pherthnasoedd teuluol<br>• mae'n gwella sgiliau iaith a sgiliau echddygol<br><br>Mae therapi chwarae o fantais arbennig i blant ag oediad datblygiadol neu anghenion dysgu ychwanegol, salwch difrifol, ymddygiad sy'n achosi problemau yn yr ysgol, plant sy'n dangos ymddygiad dig neu ymosodol, problemau teuluol fel ysgariad neu farwolaeth, cam-drin, esgeuluso neu drais domestig, anhwylderau bwyta, ADHD ac Awtistiaeth<br><br>Cefnogaeth:<br>• mae therapi chwarae'n helpu i wella cyfathrebu'r plentyn, yn ei helpu i reoli mympwyon a'r ffordd mae'n ymdopi â phryder neu rwystredigaeth.<br>• mae'n gallu cael gwared â phroblemau allai fod gan y plentyn o ran cymryd rhan mewn chwarae disgwyliedig a helpu'r plentyn i ddechrau ymddiried mewn pobl eraill.<br>• chwarae yw iaith y plentyn a'r ffordd mae'n deall ei brofiadau a'i deimladau ac yn cyfathrebu am y rhain.<br>• mae angen i'r ymarferwr neu'r athro/athrawes gynllunio amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd chwarae sy'n berthnasol, yn ysbrydoli, yn heriol ac yn hybu datblygiad er mwyn i blant wir fanteisio ar chwarae.<br>• nid dim ond hwyl yw chwarae – mae'n gallu bod yn therapiwtig i blant sy'n wynebu trafferthion neu broblemau.<br>• gall therapyddion ddefnyddio chwarae i helpu plant i archwilio emosiynau ac ymdrin â thrawma oherwydd, drwy chwarae, gallant ddysgu ffyrdd newydd o ymdopi a phatrymau ymddygiad newydd.<br>• yn gyffredinol, mae therapi chwarae'n cael effaith gadarnhaol ar blant ac, wrth iddynt ddod i ymddiried yn y therapydd, fel rheol bydd eu chwarae'n mynd yn fwy creadigol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Dadansoddiad rhagorol sy'n dangos:<br>• dehongliad craff a gwybodus o sut mae therapi chwarae yn gallu bod o fantais ac yn gallu cefnogi plant sydd ag anghenion unigol penodol.<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl ag egwyddor therapi chwarae |
| **3** | **5-6 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o sut mae therapi chwarae yn gallu bod o fantais ac yn gallu cefnogi plant sydd ag anghenion unigol penodol.<br>• ymdriniaeth drylwyr ag egwyddor therapi chwarae |
| **2** | **3-4 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhyw fath o ddehongliad o sut mae therapi chwarae yn gallu bod o fantais ac yn gallu cefnogi plant sydd ag anghenion unigol penodol.<br>• ymdriniaeth syml ag egwyddor therapi chwarae |
| **1** | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o dystiolaeth o ddehongli sut mae therapi chwarae yn gallu bod o fantais ac yn gallu cefnogi plant sydd ag anghenion unigol penodol.<br>• dim llawer o ymdriniaeth ag egwyddor therapi chwarae |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **5.** | | *Disgrifiwch y ffactorau sy’n effeithio ar ymddygiad Matthew, a thrafodwch sut byddai strategaeth SEAL yn gallu ei helpu a’i gefnogi.* | 8 | | 10 | 18 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad Matthew:<br>• teulu: ei Fam yn marw a'i Dad wedi rhoi'r gorau i weithio<br>• ffrindiau: symud i ysgol newydd, teimlo'n unig ac ar ei ben ei hun<br>• cymdeithasoli – symud tŷ ac ysgol, cael ei wahanu oddi wrth ei ffrindiau a gorfod gwneud ffrindiau newydd, ymddygiad negyddol yn yr ysgol, diffyg teimlad o berthyn yn yr ysgol/cymuned<br>• tlodi gan nad yw ei Dad yn gweithio.<br>• gwahanu oddi wrth ei Fam o ganlyniad i brofedigaeth<br>• profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys<br>• galar a cholled oherwydd marwolaeth ei Fam, colli ffrindiau oherwydd symud i dref ac ysgol newydd<br>• profiadau bywyd: ei Fam yn marw, ei Dad yn colli ei swydd, symud i dref ac ysgol newydd, gorfod gwerthu'r cartref, colli ffrindiau<br>• iechyd meddwl: iselder, galar, tristwch, colled<br>• cyfnodau o bontio: cartref newydd, tref newydd, ysgol ac amgylchoedd addysgol newydd, trefn ddyddiol ac athrawon newydd, teimlo'n ansefydlog<br><br>Sut gallai'r strategaeth SEAL helpu i gefnogi Matthew:<br><br>Mae SEAL wedi'i chynllunio i hybu datblygiad sgiliau cymdeithasol ac emosiynol sydd wedi'u dosbarthu yn y pum parth gafodd eu cynnig ym model deallusrwydd emosiynol Goleman, ac i gymhwyso'r sgiliau hyn i ddysgu. Y parthau yw:<br>• Hunanymwybyddiaeth<br>• Hunanreoleiddio (rheoli teimladau)<br>• Cymhelliant<br>• Empathi<br>• Sgiliau cymdeithasol<br><br>• Mae strategaethau SEAL mewn ysgolion wedi'u tanategu gan gynllunio clir sy'n canolbwyntio ar wella safonau, ymddygiad a phresenoldeb allai helpu Matthew i wella ei ymddygiad heriol yn yr ysgol<br><br>• Mae SEAL yn hybu ethos ysgol sy'n darparu hinsawdd ac amodau i hybu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol; cynllunnir cyfleoedd i bob plentyn i ddatblygu a gwella sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, a gallai hynny helpu Matthew i ddechrau gwneud ffrindiau a chymdeithasu mwy â'i gyfoedion a dysgu ffyrdd newydd o reoli ei emosiynau. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Caiff athrawon eu hyfforddi i ddeall pam mae sgiliau cymdeithasol ac emosiynol yn bwysig i ddisgyblion er mwyn gallu dysgu'n effeithiol ac er mwyn eu llesiant, a gallai hyn helpu Matthew i ganolbwyntio ar ei astudiaethau eto a chwblhau ei gymwysterau.<br><br>• Mae athrawon yn modelu ac yn 'sgaffaldio' y sgiliau hyn, fel eu bod nhw'n amlwg ym mhobman yn yr amgylchedd a'r diwrnod ysgol, yn ogystal â syniadau i faethu ac atgyfnerthu sgiliau SEAL ar draws y cwricwlwm.<br><br>• Bydd gwaith mewn grwpiau bach ar gael i ddisgyblion fyddai'n elwa o gefnogaeth ychwanegol, a byddai hyn o fudd i Matthew drwy roi cyfleoedd iddo i wella ei sgiliau emosiynol a chymdeithasol a'i ymroddiad i ddysgu mewn amgylchedd diogel strwythuredig<br><br>• Mae yna ymrwymiad cryf i gynnwys disgyblion ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol a byddai hyn yn caniatáu i Matthew wella ei hyder a'i hunan-barch ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn i gymuned yr ysgol iddo<br><br>• Mae yna ymrwymiad cryf i weithio'n gadarnhaol gyda rhieni a gofalwyr; byddai'r ysgol yn adeiladu perthynas gadarnhaol ac yn datblygu cyfathrebu effeithiol â chartref Matthew i roi'r gefnogaeth orau iddo mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys:<br><br>• rhoi strategaethau ar waith i feithrin sgiliau ac atgyfnerthu ymddygiadau cadarnhaol<br>• rhoi strategaethau ar waith ar gyfer lleihau ymddygiad annymunol.<br>• darparu cwnsela i Matthew<br>• mae cyfathrebu da a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni ac athrawon yn bwysig i sicrhau y dilynir trefnau cyson<br>• amser tawel<br>• arferion adferol<br>• modelu – e.e. rhieni/athrawon yn gweithredu fel modelau rôl<br>• gosod ffiniau – e.e. rheolau gartref/yn yr ysgol<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Disgrifiad rhagorol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â'r ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad Matthew<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau perthnasol. | **9-10 marc**<br>Trafodaeth ragorol sy'n dangos:<br>• llunio barn graff a gwybodus am sut gallai'r strategaeth SEAL helpu a chefnogi Matthew<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl ag egwyddorion y strategaeth SEAL<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o amrywiaeth eang o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan ynglŷn â'r ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad Matthew<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o gysyniadau perthnasol. | **6-8 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos:<br>• llunio barn resymegol am sut gallai'r strategaeth SEAL helpu a chefnogi Matthew<br>• ymdriniaeth drylwyr ag egwyddorion y strategaeth SEAL<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad Matthew<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol. | **3-5 marc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhyw fath o ddehongliad o sut gallai'r strategaeth SEAL helpu a chefnogi Matthew<br>• ymdriniaeth syml ag egwyddorion y strategaeth SEAL<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o wybodaeth na dealltwriaeth ynglŷn â'r ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad Matthew<br>• ychydig iawn o ddealltwriaeth o gysyniadau. | **1-2 farc**<br>Trafodaeth gyfyngedig sy'n dangos:<br>• dim llawer o dystiolaeth o lunio barn am sut gallai'r strategaeth SEAL helpu a chefnogi Matthew<br>• dim llawer o ymdriniaeth ag egwyddorion y strategaeth SEAL<br><br>Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

**Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu**

**Uned 3**

| **Cwestiwn** | | **Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)** | | | | **Dyraniad marciau** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adran | | | Rhan | Cyfanswm marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | 2.3.1 | 2.3.2 | 2.3.3 | | | | | |
| **1** | (a) | | | 6 | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | 6 | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (c) | | | 8 | (b) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| **2** | (a) | 6 | | | (a) | **6** | 0 | 0 | 6 |
| | (b) | 6 | | 8 | (2,3.1b) (2.3.3b) | **14** | 6 | 0 | 8 |
| Adran A | | 18 | 0 | 22 | | **40** | **18** | **8** | **14** |
| **3** | (a) | 6 | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | 6 | | | (b) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (c) | 8 | | | (a) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **4** | (a) | | 6 | | (b) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (b) | | 8 | | (ch) | **8** | 8 | 0 | 0 |
| | (c) | | 8 | | (b) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **5** | | 8 | | 10 | (2,3.1b) (2.3.3a) | **18** | 8 | 0 | 10 |
| Adran B | | 28 | 22 | 10 | | **60** | **22** | **12** | **26** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm marciau | **46** | **22** | **32** | | **100** | **40** | **20** | **40** |



© WJEC CBAC Ltd.